Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Apêl Sbardun Cymunedol

(Adran 104, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014)

Os nad yw'r dioddefydd/dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fodlon â'r ymateb maen nhw wedi derbyn gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys, gellir dwysau sbardun cymunedol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) pan mae un o'r mesurau canlynol wedi'i fodloni:

**Mesurau:**

1. Mae'r penderfyniad a ddarparwyd sy'n amlinellu pam nad oedd yr achos yn bodloni'r trothwy ar gyfer Adolygiad Sbardun Cymunedol wedi methu â rhoi digon o fanylion i ddeall pam na fu adolygiad;
2. Mae'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ag ystyried polisi, protocol neu broses apêl berthnasol;
3. Mae'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ystyried gwybodaeth ffeithiol berthnasol.

Noder: Yn ystod adolygiad achos, gall y defnydd o arf gorfodi penodol fod wedi'i ystyried. Wrth ystyried y ffeithiau a phrotocolau perthnasol, mae'n bosibl y penderfynwyd na fyddai'n briodol defnyddio'r arf gorfodi hwnnw. Os oes arf gorfodi wedi'i ystyried ac mae'r canlyniad wedi'i esbonio wrth y dioddefydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, yna ni ellir dwysau adolygiad sbardun cymunedol i SCHTh am fod y dioddefydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn anfodlon â chanlyniad y penderfyniad mewn perthynas â'r arf gorfodi.

Rôl SCHTh fydd ystyried proses ddyledus a sicrhau bod Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys wedi ymgymryd ag adolygiad yn briodol ac effeithiol. Wrth ystyried dwysau sbardun cymunedol, gall SCHTh naill ai:

**Canlyniad:**

1. Cynnal yr apêl a chyfeirio'r achos yn ôl at Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys a gofyn iddynt ystyried proses, polisi neu brotocol penodol nad oedd wedi ei ystyried o'r blaen;
2. Cynnal yr apêl, gan amlinellu'r wybodaeth ffeithiol berthnasol sydd heb ei hystyried gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys wrth ddod i'w benderfyniad;
3. Peidio â chynnal yr apêl h.y. Penderfynu bod Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys wedi adolygu'r achos drwy ystyried yr holl wybodaeth ffeithiol, polisïau, prosesau a phrotocolau perthnasol yn unol â'r Weithdrefn Sbardun Cymunedol ac wedi dod i benderfyniad gwybodus.

Yn y bôn, adolygiad pen desg fydd y broses apêl, ac ni fydd yn cynnwys gwrandawiadau neu gyfarfodydd gyda'r dioddefydd/dioddefwyr.

Os yw'r dioddefydd eisiau galw ar y broses apêl, dylid cyflwyno'r cais hwn yn uniongyrchol i SCHTh o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn canlyniad cais sbardun cymunedol gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys. Mae angen cyflwyno'r holl waith papur perthnasol ynghyd â'r sail dros yr apêl (h.y. pam nad yw mesurau 1, 2 neu 3 wedi'u bodloni). Bydd swyddfa'r Comisiynydd yn ymgymryd â'r apêl ac yn rhoi gwybod i'r dioddefydd/dioddefwyr am y canlyniad (naill ai 1, 2 neu 3 uchod) cyn gynted â phosibl, a, beth bynnag, o fewn 30 diwrnod gwaith.

Noder: Mae penderfyniad SCHTh yn derfynol, ac ni ellir apelio yn ei erbyn.

# Cais Apêl Sbardun Cymunedol

Cwblhewch y manylion y gofynnir amdanynt isod ac anfonwch eich cais apêl gorffenedig at SCHTh – cewch hyd i fanylion cyswllt ar ddiwedd y cais hwn.

**1. Teitl:**

**2. Enw:**

Cyntaf

Olaf

**3. Cyfeiriad:**

Llinell Cyfeiriad 1:

Llinell Cyfeiriad 2:

Dinas:

Sir:

Cod Post:

**4. Ffôn:**

**5. E-bost:**

**6. Beth ydych chi'n apelio yn ei erbyn? (Rhowch 'X' yn y blwch priodol)**

1. Mae'r penderfyniad a ddarparwyd sy'n amlinellu pam nad oedd fy achos yn bodloni'r trothwy ar gyfer Adolygiad Sbardun Cymunedol wedi methu â rhoi digon o fanylion i ddeall pam na fu adolygiad ☐
2. Mae'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ag ystyried polisi, protocol neu broses apêl berthnasol ☐
3. Mae'r adolygiad sbardun cymunedol wedi methu ystyried gwybodaeth ffeithiol berthnasol. ☐

**7. Pa ddyddiad dderbynioch chi'r penderfyniad rydych chi'n apelio yn ei erbyn?**

**8. Pam ydych chi'n apelio? Os fedrwch chi esbonio pa agwedd o'r Adolygiad Achos Sbardun Cymunedol neu'r Penderfyniad i Beidio ag Adolygu rydych chi'n anhapus ag ef a pham, bydd yn helpu SCHTh wrth ystyried eich apêl (parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen, a'i hatodi i'r ffurflen apêl hon)**

| |
|---|
| |

**9. Atodwch unrhyw ddogfennau ategol i'r apêl hwn os gwelwch chi'n dda.**

**<u>Noder</u>: Pan mae SCHTh yn derbyn eich apêl, bydd angen iddynt gael yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch agos gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys er mwyn adolygu'r wybodaeth ac ystyried eich apêl. Drwy gyflwyno eich apêl i SCHTh, rydych chi'n cytuno i SCHTh ofyn am wybodaeth am eich achos yn ei chyfanrwydd gan Grŵp Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dyfed-Powys.**

Dychwelwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi at: opcc@dyfed-powys.police.uk

Fel arall, anfonwch y ffurflen drwy'r post at;

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
SCHTh
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF

Datganiad:

Rwy'n datgan bod y wybodaeth rwyf wedi rhoi ar y ffurflen hon yn onest ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Llofnod Dioddefydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: ______________________________

Dyddiad: ______________________________